# Disgrifiad Swydd - Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Cyfathrebu** |
| **Band cyflog:** | **Band 3** |
| **Ystod cyflog**:<br>**(pro rata)** | **£26,345 – £33,873**<br>Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar bwynt isaf y band cyflog. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Cynorthwyydd Cyfathrebu a Materion Seneddol** |
| **Cyfeirnod:** | *MBS-138-26* |
| **Swyddfa:** | **Mair Rowlands AS** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. |
| **Math o benodiad:** | **Parhaol** |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**<br>Efallai y bydd gofyniad i ddeiliad y rôl deithio ar gyfer y gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Sylwer y gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Y rôl

| Cyfathrebu |
| --- |
| Mae’r swyddi yn y teulu hwn yn cefnogi’r broses o ledaenu gwybodaeth i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn unol â'r fframweithiau rheoleiddio y mae Aelodau'n gweithredu o’u mewn. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd. Mae swyddi yn y teulu hwn yn gyfrifol am brosesau creadigol, cysylltiadau cyhoeddus, datganiadau i'r cyfryngau, cyfathrebu a chynhyrchu cyfryngau, cyhoeddiadau printiedig ac electronig, dylunio / rheoli cynnwys gwefan, a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r swyddogaeth Gyfathrebu hefyd yn cynnwys cefnogi, cydgysylltu, llunio a rheoli cyfathrebiadau ysgrifenedig, gweledol a digidol. Gall y rolau hyn hefyd gynnwys rheoli a chydgysylltu digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â'r fframweithiau sy'n llywodraethu gweithgarwch yr Aelodau.<br>**Mae’r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Cynhyrchu syniadau, ymchwilio, creu, ysgrifennu a darparu amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu.<br>• Creu, cefnogi a rheoli ymgyrchoedd ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Darparu cyngor technegol a chyfeiriad i’r Aelodau a staff eraill mewn perthynas â dewis a defnyddio amrywiol gyfryngau cyfathrebu.<br>• Strategaethau cyfathrebu rhagweithiol ac adweithiol.<br>• Datblygu a gweithredu prosiectau gydag asiantaethau amrywiol, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r sector gwirfoddol.<br>• Meithrin a chynnal perthynas â rhanddeiliaid. |
| **Diben y swydd** |
| • Cefnogi gweithgareddau Seneddol yr Aelod, y tu mewn a'r tu allan i Siambr y Senedd<br>• Helpu i roi strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu yr Aelod ar waith<br>• Meithrin a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
| --- |
| *Ei newid  yn ôl yr angen:*<br>• Disgwylir iddynt fod yn hyddysg gyda'r adnoddau a'r offer arferol ar gyfer y swydd e.e. pecynnau meddalwedd safonol, a bod yn gyfarwydd â'r cyfryngau ar-lein.<br>• Sgiliau da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn<br>• Bydd disgwyl iddynt gynllunio a rheoli'r llwyth gwaith eu hunain o fewn cyfyngiadau arferion a gweithdrefnau sefydledig.<br>• Gwneud penderfyniadau o fewn canllawiau neu brotocolau sefydledig, er enghraifft defnyddio atebion safonol i ymholiadau neu eu trosglwyddo i eraill.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm bach. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Gwybodaeth am sut i gyfleu gwaith yr Aelod yn effeithiol ar draws ystod eang o sianeli mewn amgylchedd cyfryngol sy'n newid ac yn datblygu'n gyson.<br>• Dealltwriaeth o brosesau llywodraethol a seneddol.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a gwybodaeth. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Arddel amcanion a gwerthoedd y Blaid.<br>• . |
| **Cymwysterau** |
| • Gradd mewn pwnc perthnasol |

| |
|---|
| • |
| **Sgiliau iaith** |
| • Lefel uwch neu'n uwch na hynny. |

| **Gwybodaeth ychwanegol am lefelau sgiliau iaith** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch** | Uwch neu<br>Wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu<br>Yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd<br>Tystysgrif Sgiliau Iaith | Yn deall sgyrsiau a chyfarwyddiadau yn hyderus. | Yn gallu siarad ac ymgysylltu'n hyderus mewn trafodaeth hir ac yn gallu ateb unrhyw gwestiwn. | Yn deall amrywiaeth eang o destun yn hyderus. | Yn gallu ysgrifennu amrywiaeth eang o destunau yn hyderus. |
| **Hyfedredd** | Cymhwyster iaith:<br>Safon Uwch neu radd mewn Cymraeg<br>Safon Uwch neu radd drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Cymhwyster cyfieithu | Deall pob sgwrs a chyfarwyddyd yn gwbl hyderus. | Yn gallu siarad yn helaeth ac yn gwbl hyderus, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. | Deall pob math o destunau yn gwbl hyderus. | Yn gallu ysgrifennu pob math o destun yn gwbl hyderus. |

# Prif ddyletswyddau

| **Cyfathrebu** |
|---|
| • Monitro'r cyfryngau lleol a chenedlaethol am newyddion perthnasol.<br>• Rheoli cyfrif cyfryngau cymdeithasol yr Aelod, yn ôl cyfarwyddyd yr Aelod neu aelod uwch o staff.<br>• Sicrhau y cydymffurfir â rheolau'r Senedd ar gyfathrebu.<br>• Ysgrifennu cylchlythyrau, diweddaru'r wefan, ac erthyglau blog. |
| **Materion Seneddol** |
| • Cynorthwyo gyda'r gwaith o ddrafftio cwestiynau Senedd, llythyrau at Weinidogion, papurau briffio ac areithiau.<br>• Helpu i drefnu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid<br>• Drafftio ymatebion i ymholiadau sy'n ymwneud â pholisïau gan etholwyr neu sefydliadau lleol.<br>• Meithrin a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |
| **Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod er mwyn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod o ran cydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Materion eraill** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol |

(dyletswyddau cyfreithiol).

- Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod.